O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## CYDRADDOLDEB, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 11 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi, er mwyn ymdrin â methiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn diwygio diffiniadau yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## CYDRADDOLDEB, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* ***

*Gwnaed* ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) (sy'n ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 11 o'r Ddeddf honno, a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 iddi.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael(**2**).

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20(1) i (5) (dehongli) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

**2.** Yn rheoliad 18 (caffael cyhoeddus) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011(**1**), ym mharagraff (3), yn lle "y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015(**2**)".

*Enw*
Prif Weinidog Cymru

Dyddiad

(**1**) O.S. 2011/1064 (Cy. 155).
(**2**) O.S. 2015/102.